

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**Chwefror 11eg, 2014**

Presennol: Linda Morris (Cadeirydd), Olwen Jones (is-gadeirydd), Emyr Jones, John Morris, W D Williams, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Estynnwyd croeso i bawb ar noson o dywydd garw a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleri Jones a Gwyn Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan y Cadeirydd ym mater cais cynllunio 10iv, a datganiadau buddiant nad oedd yn rhagfarnu gan Linda Morris, Olwen Jones, Emyr Jones, John Morris a W D Williams ym mater 7iv. Roedd y Clerc wedi derbyn arweiniad oddi wrth Pwyllgor Safonau Gwynedd parthed sefyllfa Cynghorwyr yn gwneud penderfyniad ar roi cyfraniad ariannol at fudiadau y maent yn aelodau ohonynt, a gweithredwyd ar sail yr arweiniad hwn.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 19/11/13.
5. Materion yn codi o'r Cofnodion sydd ddim ar yr Agenda:

Coed y fynwent – ar ôl derbyn awgrymiadau o brisiau, cytunwyd i adael y coed yn sefyll.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a dywedodd fod ymgyrch i geisio osgoi methu'r targed ail-gylchu a osodwyd ar Wynedd drwy ystyried casglu'r biniau gwyrdd bob tair wythnos yn lle bob pythefnos. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar drigolion llai cyfrifol i ail gylchu pob peth posib. Bydd casgliad wythnosol o'r holl finiau ail-gylchu yn parhau a bydd trefniant rbennig ar gyfer teuluoedd mawr neu cartrefi lle mae babanod. Mae dirwy o £200 ar Gyngor Gwynedd am bob tunnell dros y cwota sydd yn mynd i ddirlenwad. Cyfeiriodd at Adroddiad yr Arglwydd Williams ar ail drefnu llywodraeth leol ac y bydd newidiadau yn anochel. Dywedodd ei fod yn pryderu am wanhau'r polisi iaith sydd gan Cyngor Gwynedd pe gorfodid uno gydag ardaloedd eraill. Cytunodd y Clerc i anfon sylwadau at Lywodraeth Cymru a'r Arglwydd Williams. Cafwyd trafodaeth cyffredinol ar yr ysgol gydol oes a'r gwasanaeth iechyd lleol. Diolchwyd yn fawr iawn i Alan Jones Evans am ei waith.
7. **Materion ariannol**
 - i. Dilynwyd cyngor HSBC Y Bala i newid y cyfirif o un busnes i fod yn gyfrif cymunedol. Diolchwyd am y cyngor.
 - ii. Cytunwyd i dalu'r anfoneb am docio'r gwrych: £48
 - iii. Cytunwyd i dalu costau'r Clerc 2013: £174.12 (Cyfraniad at ddefnydd swyddfa yn £130; stampiau, papur ac yn y blaen yn £44.12)
 - iv. Cytunwyd i godi cyflog y Clerc i £600 ac i'w adolygu'n flynyddol.
 - v. Derbyniwyd gwybodaeth bellach gan AON

- vi. Cytunwyd i dalu cyfran Llangywer o gyfraniad at Ganolfan Henblas, gan ei ystyried fel ffordd ymarferol o gyfrannu at elusennau er budd trigolion lleol.
- vii. Cytunwyd i gyfraniadau ariannol lleol (Cyfanswm: £700):

Eisteddfod gylch yr Urdd	£50
Eisteddfod Llangywer	£50
Apêl Gofalaeth Bro (Taith)	£50
Ffermwyr Ifainc Meirionnydd	£50
Neuadd Llangywer	£500

Os daw cais a chyfrifon gan Gymdeithas Glyn a Rhos, cytunwyd i ystyried ymhellach yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol ar y pryd.

Cytunwyd i ddefnyddio ffurflen bwrpasol yn y dyfodol i fonitro defnydd y cyfraniadau.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

Cytunodd Alan Jones Evans i godi mater cyflwr ffordd Rhydwen unwaith eto, a hefyd yr angen i drwsio'r ffordd wrth droad Ty'n Gwrych.

9. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad W D Williams ar y diwrnod agored a'r datblygiadau yn yr Henblas. Soniodd hefyd am waith Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf gydag asedau'r Parc.

Derbyniwyd neges gan Gwyn Roberts nad oedd yn gallu cael yr amser bellach i gynrychioli'r Cyngor ar Partneriaeth Penllyn. Linda Morris yw'r dirprwy.

10. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Nodwyd Ymgynghoriad ar gynlluniau i arbed £872,000 dros y ddwy flynedd nesaf.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/70/137 Cynllun Dŵr Afon Nant Hir, Cefn y meirch, Rhosygwalia.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/70/138 Cynllun Dŵr Afon Nant Cwm Hegin, Cefn y meirch, Rhosygwalia.
- iv. Mynegwyd gwrthwynebiad i gais **NP5/70/LB7R** sef ychwanegu amrywiaeth o adnoddau tirwedd a gweithgaredd awyr agored yn y Fach Ddeiliog oherwydd y difrod pellach sy'n debygol i Lwybr March Rhif 5. Cytunodd y Clerc i gynnwys manylion y gwrthwynebiad wrth ohebu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.
- v. Cymeradwywyd cais Cais **NP5/70/135A** sef cynllun dwr Nant Rhyd Wen.
- vi. Cymeradwywyd cais Cais **NP5/70/E139** i wneud gwaith trydanol ar dir yn Llangywer.

Gwynedd:

- i. Derbyniwyd copi o holiadur Cyngor Gwynedd am ail-gylchu.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth gan Reolwr Cefn Gwlad a Mynediad am adolygu categorïau llwybrau cyhoeddus trwy Wynedd.

- iii.* Derbyniwyd gwybodaeth am holiadur Cofrestrau Buddiant Cyngorau Cymuned ac Adroddiad Blynyddol o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.
- iv.* Derbyniwyd gwybodaeth am newidiadau i Ganllawiau Gwynedd ar ynni gwynt ar y tir (ddim yn cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri)

Heddlu:

- i. Nodwyd y Cynllun Heddlu a Throsedd.
- ii. Nodwyd y digwyddiad 'Creu'r Cysylltiad' gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Un Llais Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun hyfforddiant Un Llais Cymru; cytunwyd gydag awgrym Cyngor Tref Y Bala i gynnal sesiwn hyfforddiant ar y cyd ar gyllid yng Nghanolfan yr Henblas.
- ii. Nodwyd ateb Holiadur ITV am safleoedd claddu.
- iii. Derbyniwyd copiâu o "Y Llais".
- iv.* Nodwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar newidiadau i'r system gynllunio .
- v. Nodwyd gwybodaeth am benodi Aelodau i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

11. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mai.

Amser gorffen: 10.00pm